*Cafodd yr Offeryn Statudol hwn ei wneud o ganlyniad i namau yn O.S. 2003/1066 (Cy.211) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1314 (Cy.136)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) 2008

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 (O.S. 2003/1966 (Cy.211)). Mae'n dileu diffiniad diangen ac yn egluro'r math o drwydded y cyfeirir ato yn erthygl 14(3) o'r Gorchymyn hwnnw.

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir y bydd yr offeryn yn effeithio o gwbl ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

*This Statutory Instrument has been made in consequence of defects in S.I. 2003/1066 (W.211) and is being issued free of charge to all known recipients of that Statutory Instrument*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 1314 (W.136)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

# The Disease Control (Wales) (Amendment) Order 2008

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order amends the Disease Control (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/1966 (W.211)). It removes an unnecessary definition and clarifies the type of licence referred to in article 14(3) of that Order.

A regulatory impact assessment has not been produced for this instrument as no impact on the private or voluntary sectors is foreseen.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1314 (Cy.136)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) 2008

*Gwnaed* *14 Mai 2008*

*Yn dod i rym* *6 Mehefin 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 7 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1**. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) 2008. Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 6 Mehefin 2008.

**Diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003**

**2**.—(1) Mae Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003(**2**) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2, hepgorer y diffiniad o "milfeddyg".

(3) Yn lle paragraff (3) o erthygl 14, rhodder—

"(3) Rhaid i bob anifail sy'n cael ei symud o dan drwydded benodol gael ei gadw ar wahân i unrhyw anifail nad yw'n cael ei symud o dan awdurdod y drwydded honno, a hynny ar hyd y daith.".

(**1**) 1981 p. 22. Cafodd swyddogaethau o dan Ddeddf 1981 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r swyddogaethau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2003/1966 (Cy.211).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 1314 (W.136)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

## The Disease Control (Wales) (Amendment) Order 2008

*Made* *14 May 2008*

*Coming into force* *6 June 2008*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 1, 7, and 8(1) of the Animal Health Act 1981(**1**), make the following Order.

**Title and commencement**

**1**. The title of this Order is the Disease Control (Wales) (Amendment) Order 2008. It applies in relation to Wales and comes into force on 6 June 2008.

**Amendment of the Disease Control (Wales) Order 2003**

**2**.—(1) The Disease Control (Wales) Order 2003(**2**) is amended as follows.

(2) In article 2, omit the definition of "veterinary surgeon".

(3) For paragraph (3) of article 14, substitute—

"(3) Every animal which is moved under a specific licence must be kept separate throughout such movement from any animal which is not being moved under that licence.".

(**1**) 1981 c. 22. Functions under the 1981 Act were transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672 and S.I.2004/3044. By virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these functions are now exercisable by the Welsh Ministers.

(**2**) S.I. 2003/1966 (W.211).

*Elin Jones*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

14 Mai 2008

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

14 May 2008

WELSH

£3.00

W321/05/08

ON